## CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2019 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Isadeiledd Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol dros Safonau Corfforaethol

**Arsyllwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Martyn Holland, Alan James, Barry Mellor, Merfyn Parry, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Huw Williams ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS) ac Economi a Thir y Cyhoedd (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Swyddog Cyllid/Adran 151 (RW), Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG); Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd (EJ); Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL); Rheolwr Fframwaith (TS) a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Roedd y Cynghorydd Peter Scott wedi rhoi ei ymddiheuriadau gan ei fod wedi bwriadu mynychu.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

### 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2019.

***PENDERFYNWYD*** *bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2019 yn cael eu derbyn a'u cadarnhau fel gwir gofnod.*

### 5 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD SIR DDINBYCH - STRATEGAETH A FFAFRIR DRAFFT

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad yn rhoi manylion y Gwaith a wnaed hyd yma ar Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Sir Ddinbych ac argymhellion y Grŵp Cynllunio Strategol mewn perthynas â'r Strategaeth a Ffafrir Drafft ar gyfer yr CDLl. Byddai'r CDLl Newydd yn darparu polisïau cynllunio cyfoes a dyraniadau safle ar gyfer datblygiadau i fynd i'r afael â materion ac anghenion yn y sir ar gyfer y cyfnod 2018 - 2033. Yn gryno, gosododd y Strategaeth a Ffafrir Ddrafft -

Lefelau Twf Arfaethedig Drafft –

- 68ha o dir cyflogaeth i ddarparu ar gyfer gofyniad tir a ragwelir- o 47.6ha
- Tir ar gyfer 3,775 o gartrefi newydd i fodloni gofyniad tai o 3,275 o gartrefi

Dull Gofodol Arfaethedig Drafft –

- Canolbwyntio datblygiad ar Safle Strategol Bodelwyddan a'r aneddiadau a wasanaethir: y tair haen uchaf yn yr hierarchaeth aneddiadau (prif ganolfannau, canolfannau lleol a phentrefi) gyda thwf mwy cyfyngedig mewn aneddiadau eraill heb eu gwasanaethu (safleoedd mewnlenwi a safleoedd bach mewn ffiniau datblygu), sy'n canolbwyntio'n bennaf ar fodloni anghenion lleol.

Darparodd yr adroddiad rywfaint o gefndir mewn perthynas â sefydlu ac aelodaeth o'r Grŵp Cynllunio Strategol ynghyd â datblygu'r Strategaeth a Ffafrir Ddrafft o ran datblygu opsiynau twf a gofodol a gosod y cyd-destun ar gyfer dynodi faint o dir datblygu oedd yn ofynnol ar gyfer tai a chyflogaeth ac ymhle y dylid lleoli'r datblygiad hwnnw. Cytunodd mwyafrif y Grŵp Cynllunio Strategol i argymell lefelau twf a ffafrir, y dull gofodol arfaethedig a'r ddogfen Strategaeth a Ffafrir Ddrafft gyflawn i'r Cabinet a'r Cyngor. Cefnogodd y Cadeirydd a chynrychiolydd Grwpiau Ardal Aelodau Elwy y ffigur twf mewn tai ond nid y ffigur tir cyflogaeth felly trwy oblygiad, ni wnaeth hefyd gefnogi'r dull gofodol.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad a'r argymhellion a roddwyd gerbron gan y Grwpiau Cynllunio Strategol a chanolbwyntiodd y ddadl ar y meysydd canlynol -

- Cydnabyddodd y swyddogion yr angen i ddarparu ar gyfer safle trosglwyddo Sipsiwn a Theithwyr trwy broses yr CDLl a oedd yn cynnwys nifer o gamau a byddent yn cael eu cynnwys yng ngham yr CDLl i'w archwilio gan y cyhoedd ynghyd â phob dyraniad safle arall.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Tony Thomas at faterion a godwyd gan rai Grwpiau Ardal Aelodau a theimlai y byddai'n ddarbodus gohirio ystyriaeth o'r eitem i alluogi ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hynny a hefyd i adlewyrchu'n well anghenion busnesau bach a oedd yn hollbwysig i economi Sir Ddinbych. Ar wahoddiad y Cadeirydd, y Cynghorydd Emrys Wynne, crynhodd cynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun ar y Grŵp Cynllunio Strategol bryderon Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun mewn perthynas â'r gostyngiad potensial yn swm y tir cyflogaeth sydd ar gael yn Rhuthun a'r effaith andwyol dilynol ar yr ardal a ymhelaethwyd ymhellach arni gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts. Eglurodd y swyddogion fod ffigurau tir cyflogaeth yn y Strategaeth a Ffafrir Ddrafft wedi rhoi syniad bras o'r lefelau twf arfaethedig a fu'n seiliedig ar adroddiad y BE Group a oedd wedi ystyried y safleoedd mewn rhywfaint o

fanylder ac esboniwyd y rhesymeg y tu cefn i'r argymhellion o ran safleoedd Rhuthun yng Nglasdir a Lôn Parcwr. Rhoddwyd sicrwydd nad oedd unrhyw ddyraniadau safle'n cael eu cynnig ar hyn o bryd ac os oedd y Strategaeth a Ffafrir Ddrafft yn cael ei chymeradwyo am ymgynghoriad, byddai cyfle am adborth ac i roi gwybod bod gwaith yn mynd rhagddo a cheisiadau gan Grwpiau Ardal Aelodau i ailymweld â'r dyraniad safleoedd cyflogaeth yn cael eu darparu ar eu cyfer. Yn ddiweddar, rhoddodd Grŵp Ardal Aelodau Prestatyn safle cyflogaeth botensial gerbron i'w gynnwys yn yr CDLl a chalonogwyd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill nad oedd gwaharddiad i ddod â safleoedd ychwanegol ymlaen yn ddiweddarach i'w hystyried fel rhan o'r broses dyrannu safleoedd ac felly cefnogodd argymhellion y Grŵp Cynllunio Strategol.

- Heriodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y ffigur twf cyflogaeth arfaethedig a sail y cyfrifiadau a wnaed gan BE Group, yn enwedig mewn perthynas â'r defnydd o gyfraddau cwblhau'r gorffennol na fyddent yn cymharu'n ffafriol yn Rhuthun, ac ystyriodd y dylai dyraniadau fod yn seiliedig ar angen, gan ailadrodd ei bryderon mewn perthynas â cholled potensial tir cyflogaeth sydd ar gael yn Rhuthun heb gynnig unrhyw newid mewn ardaloedd eraill. Cynghorwyd y swyddogion ynghylch yr angen i ymgymryd ag adolygiad o dir cyflogaeth a dynodi gofynion a chlustnodi safleoedd yn yr CDLl oedd yn rhan o'r cam nesaf, o ganlyniad, adolygodd y BE Group argaeledd presennol ac argymhellodd dir i'w gario ymlaen. Ailadroddwyd nad oedd manylion ac argymhellion dyrannu'r safle'n rhan o'r cam presennol yn y broses ond byddai'n cael ei ystyried yn fanwl yn y cam nesaf - nid oedd yr un o'r safleoedd yn cael eu hystyried na'u diystyru ar y cam hwn. Dynododd y Strategaeth a Ffafrif yr anghenion yn Sir Ddinbych a byddai trafodaeth fanylach ar ardaloedd unigol yn digwydd yn nes ymlaen.
- canolbwyntiodd rhywfaint o'r drafodaeth ar rymuster y broses a ddefnyddiwyd i ymgysylltu aelodau a oedd yn cynnwys sefydlu'r Grŵp Cynllunio Strategol a gadeiriwyd gan y Cynghorydd Brian Jones (Aelod Arweiniol) ac a oedd yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ac un cynrychiolydd o bob Grŵp Ardal Aelodau i adrodd a rhoi adborth ar y cyfraniadau gyda'i gilydd gyda dau sesiwn friffio o bob aelod. Gofynnodd y Cynghorydd Mark Young am gadarnhad o ran argymhellion CCA a nodwyd bod y Grŵp wedi pleidleisio o blaid yr argymhellion – 5 o blaid a 2 yn erbyn – nid oedd y Cadeirydd a chynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau Elwy yn cefnogi'r ffigurau tir cyflogaeth. Adroddodd y Cynghorydd Brian Jones ar gyfarfodydd y Grŵp Cynllunio Strategol ac ystyriwyd cyfoeth y dystiolaeth ynghyd â'i farn bersonol mewn perthynas â thwf economaidd a phwysigrwydd busnesau bach. Teimlai'r Cynghorydd Hilditch-Roberts ei bod hi'n bwysig i'r Aelod Arweiniol ac aelodau eraill fod yn gysurus â'r argymhellion a holodd ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflawni ac a oedd cwmpas i fynd i'r afael ymhellach â materion eithriadol cyn cyflwyno'r ddogfen i'r Cyngor. Nododd yr Arweinydd, ar wahân i Grŵp Ardal Aelodau Elwy, fod pob cynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau arall ar y Grŵp Cynllunio Strategol wedi pleidleisio o blaid yr argymhellion a byddai cyfle pellach i ddelio â'r materion a godwyd mewn perthynas â dyraniadau safle yn nes ymlaen ac adolygu'r ffigurau tir cyflogaeth ar ôl y cyfnod ymgynghori. Cyfeiriodd y swyddogion hefyd at y Cytundeb Cyflawni sy'n gosod yr amserlen dynn ar gyfer llunio'r CDLl Newydd a gymeradwywyd gan y Cyngor ac yn dilyn hynny, gan Lywodraeth Cymru.
- Ailadroddodd y Cynghorydd Richard Mainon bwysigrwydd sicrhau'r canlyniad cywir ar y cam hwn a holodd sut roedd adborth o'r ymgynghoriad cynharach wedi dylanwadu ar y cynllun twf a dyrannu tir cyflogaeth o gofio bod y llyw

cychwynnol wedi bod ar gyfer Opsiwn 2. Heriodd y newid dilynol mewn cyfeiriad a'r effaith ar Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan, yn enwedig o gofio cyflwyno adroddiad BE Group ar gam cymharol hwyr yn y broses a oedd wedi cael effaith sylweddol ar y ffigurau twf a gyflwynwyd. Esboniodd y swyddogion y gwaith cychwynnol a gyflwynwyd gan ystadegydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar sail sefyllfaoedd twf a dewisiadau oedd yn gysylltiedig â thwf swyddi a chyfrifiadau gofyniad tir dilynol i ddarparu lefel anghenion sylfaenol ar gyfer dewisiadau twf aelwydydd. Roedd y BE Group wedi ymgymryd â darn o waith gwahanol mewn perthynas ag adolygiad tir cyflogaeth a oedd yn cynnwys ymgynghori ag asiantau a busnesau ac adroddodd ddymuniad cryf am ofynion twf pellach. Manylwyd ar y sail dystiolaeth ar gyfer y cyfrifiadau lefel twf arfaethedig yn ymwneud â thir cyflogaeth yn adroddiad BE Group a oedd ar gael i bob aelod.

Gwahoddodd yr Arweinydd gyflwyniadau/cwestiynau gan bobl nad oeddent yn aelodau Cabinet –

- Adroddodd y Cynghorydd Rhys Thomas, Cynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau Dinbych ar y Grŵp Cynllunio Strategol fod y Grŵp wedi cydweithio'n galed i fod o fantais i Sir Ddinbych i gyd a gellid mynd i'r afael â materion ardal ward unigol ar gam diweddarach yn y broses. Ychwanegodd y byddai agweddau ar y CDLl gyda chysylltiadau â Bargen Twf y Gogledd y dylid eu trafod yn ystod y broses ymgynghori. Roedd yr Arweinydd yn parchu gwaith y Grŵp Cynllunio Strategol ac o ran y fargen twf ranbarthol, cadarnhaodd y potensial am fuddsoddiad enfawr
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Arwel Roberts, Cynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau Elwy ar y Grŵp Cynllunio Strategol at ei ymwneud hwyr yn y Grŵp mewn cyfarfod Grŵp Ardal Aelodau Elwy diweddar a ganolbwyntiodd ar y gofyniad tai ym Modelwyddan a phryderon mewn perthynas â'r 26ha potensial o dir at ddefnydd diwydiannol ac a ystyriwyd safleoedd eraill yn ardal Grŵp Ardal Aelodau Elwy. Esboniodd y swyddogion fod gan Fodelwyddan ganiatâd amlinellol ar hyn o bryd hyd at fis Mawrth 2021 at ddefnyddiau amrywiol gan gynnwys 26ha o dir cyflogaeth a argymhellwyd i'w gario ymlaen i'r CDLl nesaf; cafwyd caniatâd am 1715 o gartrefi ym Modelwyddan oedd heb ddirwyn i ben eto. Wrth fodloni anghenion tai, ystyriwyd caniatâd cynllunio amlinellol a allai ddod gerbron ac yn hynny o beth, ystyriwyd bod caniatáu 400 o unedau yn asesiad rhesymol o ran yr hyn y gellid ei gyflwyno erbyn 2033.
- Cadarnhaodd y Cynghorydd Graham Timms, Cynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau Dyffryn Dyfrdwy ar y Grŵp Cynllunio Strategol fod y Grŵp Cynllunio Strategol wedi ystyried swm helaeth a chymhleth o wybodaeth a chytunodd gyda'r Cynghorydd Brian Jones mewn perthynas â phwysigrwydd busnesau bach a'r angen am fuddsoddiad yn y maes hwnnw ar draws Sir Ddinbych, gan gynnwys Dyffryn Dyfrdwy. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a Thir y Cyhoedd fod potensial am gyllid i'r dyfodol yn codi o Fargen Twf y Gogledd i ariannu safleoedd cyflogaeth yn ardal Dyffryn Dyfrdwy ac ailadroddodd sicrwydd y byddai cyfle i ddwyn ymlaen safleoedd fel rhan o gam i'r dyfodol yn y broses o alluogi i'r buddsoddiad hwnnw ddigwydd
- Holodd y Cynghorydd Martyn Holland am y potensial i Lywodraeth Cymru ymyrryd o gofio'u rhan nhw yn y broses CDLl diwethaf. Cadarnhaodd y swyddogion bod ganddynt hyder yn y ffigurau a ddarparwyd a fu'n seiliedig ar y

wybodaeth orau oedd ar gael. Roedd pwyslais presennol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gyflawniadwyedd a byddai adborth Llywodraeth Cymru'n cael ei ofyn amdano fel rhan o'r broses ymgynghori.

Ystyriodd y Cabinet argymhellion y Grŵp Cynllunio Strategol fel y manylir arnynt yn yr adroddiad a ph'un ai i'w hargymell i'r Cyngor. Cytunwyd pleidleisio o blaid pob argymhelliad ar wahân o ran eglurder ac yn dilyn hynny –

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn argymell argymhellion y Grŵp Cynllunio Strategol i'r Cyngor mewn perthynas â'r Strategaeth a Ffafrir yr CDLl Newydd Drafft fel a ganlyn –*

*(a)* ***Lefelau Twf Arfaethedig Drafft:***

*68ha o dir cyflogaeth i ddarparu ar gyfer gofyniad tir amcanol o 47.6ha*
*Tir ar gyfer 3,775 o gartrefi newydd i ddiwallu gofyniad tai o 3,275 o gartrefi*

*(b)* ***Dull Gofodol Arfaethedig Drafft:***

*Ar sail Opsiwn 3 – canolbwyntio datblygiad yn Safle Strategol Bodelwyddan ac aneddiadau a wasanaethir: y tair haen uchaf yn yr hierarchaeth aneddiadau (prif ganolfannau, canolfannau lleol a phentrefi) gyda thwf mwy cyfyngedig mewn aneddiadau eraill nad oeddent yn cael eu gwasanaethu (safleoedd mewnlenwi a bach mewn ffiniau datblygu), sy'n canolbwyntio'n bennaf ar fodloni anghenion lleol*

*(c)* *argymell y Strategaeth a Ffafrir Ddrafft (Atodiad 2 i'r adroddiad) yn ei chyfanrwydd i'r Cyngor, a*

*(d)* *chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr Adroddiad) fel rhan o'i ystyriaeth.*

Cofnodwyd y pleidleisiau ar gyfer pob un o'r argymhellion uchod fel a ganlyn –

(a) Y Cynghorwyr Hugh Evans, Bobby Feeley, Brian Jones, Julian Thompson-Hill a Mark Young – O BLAID
Y Cynghorydd Richard Mainon – YN ERBYN
Y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts a Tony Thomas – DIM PLEIDLAIS

(b) Y Cynghorwyr Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Julian Thompson-Hill a Mark Young – O BLAID
Y Cynghorydd Richard Mainon – YN ERBYN
Y Cynghorwyr Brian Jones a Tony Thomas – DIM PLEIDLAIS

(c) Y Cynghorwyr Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Brian Jones, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill a Mark Young – O BLAID
Y Cynghorydd Richard Mainon – YN ERBYN

(d) PAWB O BLAID.

Gohiriwyd y cyfarfod yn y fan hon (11.30 a.m.) am egwyl lluniaeth.

## 6 CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN

Cyflwynodd y Cynghorwyr Bobby Feeley a Julian Thompson-Hill yr adroddiad ar y cyd yn gofyn i'r Cabinet ystyried yr Achos Busnes drafft (atodiad cyfrinachol ynghlwm â'r adroddiad) i sefydlu Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol ar gyfer ystod o weithgareddau/swyddogaethau cysylltiedig â hamdden "mewn cwmpas" a gytunwyd yn flaenorol ynghyd ag awdurdodiadau cysylltiedig cyn adrodd yn ffurfiol i'r Cyngor er mwyn i'r arbedion disgwyliedig allu cael eu cyflawni o flwyddyn ariannol 2020/21.

Ailadroddodd  y Cynghorydd Feeley werth a phwysigrwydd darpariaeth gwasanaeth hamdden y Cyngor o ran iechyd a lles pobl ac amlygodd y buddsoddiad sylweddol yn y cyfleusterau hynny yn ddiweddar. Esboniwyd y rhesymeg y tu cefn i sefydlu Model Cyflwyno Amgen er mwyn darparu arbedion sylweddol i'r Cyngor yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni wrth alluogi i'r gwasanaeth hefyd fasnachu'n fwy masnachol er mwyn helpu cynnal cyfleusterau i'r dyfodol. Byddai'r model yn galluogi dull mwy hyblyg, arloesol ac entrepreneuraidd o droi at hamdden fasnachol wrth alluogi'r Cyngor hefyd i gadw rheolaeth lwyr gyda threfniadau llywodraethu grymus wedi'u cynnig. Cyfeiriwyd at Gynghorau eraill a oedd eisoes yn defnyddio modeli cyflwyno amgen tebyg i gyflwyno ystod o swyddogaethau ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd a darparwyd trosolwg o ran sut byddai Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol yn gweithredu'n ymarferol. Adroddodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ar yr ystyriaethau ariannol y manylwyd arnynt yn gynhwysfawr yn yr adroddiad yn amlygu'r arbedion sylweddol a'r costau gweithredol a wariwyd ar y cwmni newydd ynghyd â chyfrifoldebau rheoli ariannol wrth symud ymlaen. Yn gryno, amcangyfrifwyd bod yr arbedion yn £1,107,000 gyda'r arbediad blynyddol net yn y flwyddyn gyntaf wedi'i amcangyfrif i fod yn £800,000. Gofynnodd y Cynghorydd Mark Young am gadarnhad o delerau ac amodau staff ar gyfer y rheiny a fyddai'n cael eu trosglwyddo i'r cwmni newydd, oherwydd codwyd y cwestiwn ar ôl cyfarfod â'r undebau.  Byddai'r staff yr effeithir arnynt yn cael eu trosglwyddo i Gwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol  dan reoliadau TUPE ac yn destun yr un telerau ac amodau. Cynghorwyd y Cabinet hefyd, er bod y model cyfredol yn gysylltiedig â gweithgareddau swyddogaethau cysylltiedig â hamdden benodol, roedd cyfleoedd potensial i ychwanegu gweithgareddau/swyddogaethau eraill yn y dyfodol fel y bo'n briodol.

Nododd y Cabinet yr arbedion ariannol sylweddol sy'n codi o'r cynnig ynghyd â buddiannau tymor hwy i helpu diogelu hyfywedd ariannol ac ansawdd gwasanaethau hamdden wrth symud ymlaen gyda'i gilydd a chyfleoedd am dwf i'r dyfodol. Codwyd cwestiynau mewn perthynas â'r amryw agweddau ariannol sy'n codi o'r adroddiad ynghyd â threfniadau llywodraethu a ystyriwyd yn elfen allweddol wrth gyfrannu at lwyddiant Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol i'r dyfodol. Gofynnwyd am sicrwydd hefyd o ran rheoli risgiau dynodedig a diogelu telerau ac amodau staff wrth drosglwyddo ac yn y dyfodol.

Ymatebodd yr Aelodau Arweiniol a'r swyddogion i gwestiynau fel a ganlyn –

- Gofynnodd y Cynghorydd Mark Young sut y byddai llif arian y busnes newydd yn llifo. Cadarnhaodd Pennaeth Cyllid o ran sicrhau llif arian digonol yn y camau cyntaf a symud ymlaen, y bwriad oedd bod cymhorthdal y Cyngor yn cael ei dalu ymlaen llaw a fyddai'n caniatáu cyfalaf gweithio LATC i reoli ei faterion a hefyd i drosglwyddo cronfa arian parod i alluogi rhyddid i'r cwmni ynghylch buddsoddiad bach – ni rhagwelir y bydd y cwmni yn mynd dros y gyllideb, ond petai'n digwydd yna byddai'r ffigur arbedion net yn cael ei leihau yn unol â'r swm hwnnwgellir cymryd sicrwydd mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu grymus a gynigiwyd gyda dau fwrdd ar wahân (1) Bwrdd Gweithredol i reoli rhediad y cwmni o ddydd i ddydd, a (2) y Bwrdd Llywodraethu Strategol i ddarparu goruchwyliaeth strategol. Bydd cytundeb 10 mlynedd yn cael ei gytuno, ynghyd â strategaeth hamdden newydd. Byddai'r ddau fwrdd yn ychwanegol at fecanweithiau adrodd sefydledig y Cyngor ar gyflawni a pherfformiad, a byddai'r gwasanaeth hefyd yn destun proses herio'r gwasanaeth
- esboniwyd y rhesymeg y tu cefn i beidio â chyhoeddi'r achos busnes drafft o gofio'i fod yn cynnwys elfennau cyfrinachol yn ymwneud â gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad Deddf Llywodraeth Leol 1972 - teimlai'r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y byddai teilyngdod mewn tynnu'r elfennau cyfrinachol i alluogi ar gyfer cyhoeddi gweddill yr achos busnes o gofio'i fod yn adroddiad cadarnhaol
- rhoddwyd sicrwydd y byddai staff a drosglwyddir yn destun yr un telerau ac amodau a pholisïau cyflogaeth, gan gynnwys y cynllun pensiwn, a fyddai'n parhau yn y dyfodol – byddai angen i'r telerau hynny hefyd fod yn berthnasol i unrhyw staff newydd a gyflogir gan y cwmni, a bod y rhwymedigaethau cyfamodol a chadw rheolaeth gan y Cyngor yn darparu'r dulliau diogelu angenrheidiol yn hynny o beth
- cydnabuwyd nad oedd yr un prosiect heb risgiau, y byddai llawer ohonynt yn yr achos hwn yn parhau i fod ar waith, p'un a oedd y gwasanaeth yn fewnol neu'n allanol. Bu'r cynnig trwy'r fethodoleg prosiect arferol oedd yn cynnwys cofrestr risg er mwyn lliniaru'r risgiau dynodedig cyn belled ag y bo hynny'n bosibl ac roedd y cynnig yn parhau i gael ei ystyried fel y dewis gorau i gyflwyno'r gwasanaeth wrth symud ymlaen. Ymhelaethodd y swyddogion ar y risgiau allweddol a ddynodwyd y manylwyd arnynt yn yr achos busnes a oedd yn cynnwys newidiadau i'r dyfodol mewn deddfwriaeth, trefniadau llywodraethu annigonol, a newidiadau i'r farchnad hamdden a chostau cyflwyno/cyflenwi – yn y sefyllfa achos gwaethaf, byddai'r achos yn mynd yn ôl at y Cyngor
- cadarnhawyd yn ystod cam gweithredu ac ar ôl gweithredu'r prosiect, byddai gwaith yn cael ei wneud gan staff sy'n gweithredu ar ran y Cyngor a byddai protocolau Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol a wal Tsieineaidd yn cael eu datblygu a'u gweithredu i sicrhau gwahanu cyngor a lle'r oedd adran o'r Cyngor yn gweithredu ar ran y ddwy blaid, byddai gwahanol swyddogion yn cael eu dyrannu – byddai angen rhoi'r trefniadau hynny ar waith i weithredu'r gymeradwyaeth ganlynol o'r achos busnes gan y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn argymell bod y Cyngor –*

*(a)* *yn cefnogi'r Achos Busnes terfynol ar gyfer y Prosiect (bydd hyn yn cynnwys mireinio'r achos busnes drafft sydd ynghlwm fel Atodiad A yr adroddiad);*

(b) *yn cefnogi'r gwaith o sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol dielw cyfyngedig trwy Warant;*

(c) *yn cefnogi penodiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Thir y Cyhoedd i Fwrdd Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol;*

(d) *cefnogi cadw enw presennol 'Hamdden Sir Ddinbych' ar gyfer Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol; a*

(e) *bod y Cabinet yn cadarnhau iddo ddarllen, deall ac ystyried yr Asesiadau Effaith ar Les (Atodiad B, Cyf 564 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaeth.*

## 7 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn y strategaeth gyllideb gytûn. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2018/19 oedd £194.418m (£189.252m yn 2017/18)
- rhagwelwyd tanwariant o £0.287m ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- amlygodd risgiau cyfredol ac amrywiadau mewn perthynas â meysydd gwasanaeth unigol, a
- darparodd ddiweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd nodi'r defnydd arfaethedig o gario gwasanaeth ymlaen fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod y rhan fwyaf o'r prosiectau cyfalaf mawrion wedi aros yn unol â'r gyllideb ac ar y trywydd iawn. O ran Ysgol Llanfair, roedd y gwaith adeiladu ar y safle ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau o fewn cyfnod y contract. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn y broses o gytuno rhyddfraint er mwyn gallu mynd at y draen budr ar dir trydydd parti i ddarparu'r cysylltiad dŵr budr â safle'r ysgol newydd. Arwyddwyd y rhyddfraint gan y Cyngor ac roedd gydag ymddiriedolwyr y perchennog tir i'w adolygu ar hyn o bryd. Hyd nes i'r rhyddfraint gael ei gwblhau, ni allai gwaith oedd yn aros i gael ei gyflawni gael ei gynllunio yn y rhaglen adeiladu na'i gyflwyno i Ddŵr Cymru. O ganlyniad, roedd oedi potensial gyda'r prosiect oherwydd yr amgylchiadau allanol hynny a oedd gan mwyaf y tu allan i reolaeth y Cyngor. Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn gobeithio cael ateb cyflym i'r trafodaethau trydydd parti er mwyn osgoi unrhyw oedi posibl gyda'r prosiect.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at Ailddatblygiad Marchnad y Frenhines y Rhyl a diolchodd i Lywodraeth Cymru am y cymorth ariannol a ddarparwyd i alluogi ar gyfer prynu'r safle i'w ddatblygu a'i adfywio i'r dyfodol yn y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

(a) *yn nodi'r cyllidebau a osodwyd ar gyfer 2018/19 a chynnydd yn erbyn y strategaeth gyllideb gytûn, ac*

(b) *yn nodi'r defnydd arfaethedig o gario gwasanaethau ymlaen.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w ystyried a nododd yr aelodau'r diwygiadau canlynol –

- Symud Cytundeb Llywodraethu Cais am Dwf y Gogledd 2 o fis Mai
- Fframwaith Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Gwaith Tai Gwag – i'w ychwanegu ar gyfer mis Mai

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD****, dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod am yr eitem fusnes ganlynol oherwydd y byddai'n cynnwys datgeliad tebygol o wybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad Paragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 9 NEWIDIADAU I BENODIADAU CONTRACTWYR I FFRAMWAITH ADEILADU GOGLEDD CYMRU (NWCF2)

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol yn rhoi manylion newidiadau i broses canlyniad Fframwaith Adeiladu 2 Gogledd Cymru (NWCF2) ac argymhellwyd penodi contractwyr i'w defnyddio ar gyfer gwaith adeiladu mawr o dros £250,000.

Cymeradwyodd y Cabinet benodiad y contractwyr a enwir i Fframwaith Adeiladu 2 Gogledd Cymru ar 26 Chwefror 2019. Ers hynny, mae un o'r contractwyr wedi'i eithrio o'r broses gaffael ac yn dilyn hynny, ceisiwyd cymeradwyaeth i benodi'r contractwr nesaf a raddiwyd i'r lle a oedd wedi mynd yn wag yn Lot 3 fel y manylwyd yn yr adroddiad. Ystyriodd y Cabinet y newidiadau i ganlyniad y broses gaffael a nodwyd er bod contractwr gwahanol wedi'i gynnig, byddai'r un amodau'n berthnasol ac roedd yr effaith ar y Cyngor yr un fath. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r newid i Lot 3 a phenodi'r contractwr a enwyd yn ôl manylion paragraff 3 yr adroddiad i Fframwaith Adeiladu 2 Gogledd Cymru.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55 o'r gloch.